**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 7 Awst 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | M B Lewis |
| T M White | L J Tyler-Lloyd | W Evans |
| M H Jones | | |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd C R Evans

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu, Llunio Lleoedd & Threftadaeth |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Hefyd yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Geraint John | Geraint John Planning |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard, R D Lewis, P B Smith a/ac D W W Thomas

---

**68 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd C R Evans gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod Rhif 71 – Cais Cynllunio – 2020/0108/FUL – tir i'r gogledd o Rodfa Fadog, Cwmrhydyceirw, Abertawe SA4 6LQ a gadawodd y cyfarfod ar ôl gwneud datganiad personol ynghylch y cais.

**69 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

**70 Eitemau i'w gohirio / tynnu'n ôl.**

Dim.

**71 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd:** -

1) **CYMERADWYO'R** cais cynllunio y cyfeirir ato isod yn unol ag argymhelliad yn amodol ar **GYTUNDEB A106** a'r amodau diwygiedig fel y'u nodir ar y daflen ddiweddaru.

(Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod #)

**# (Eitem 1) - Cais Cynllunio 2020/0108/FUL - Dymchwel yr adeilad sydd eisoes yn bodoli ar y safle ac adeiladu datblygiad preswyl sy'n cynnwys 29 o unedau fforddiadwy (gan gynnwys 7 tŷ a 22 fflat), 3 uned manwerthu, lleoedd parcio, tirlunio a gwaith atodol cysylltiedig ar dir i'r gogledd o Rodfa Fadog, Cwmrhydyceirw, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol manwl.

Hysbyswyd y Pwyllgor am:

- Un llythyr gwrthwynebu ychwanegol-copi wedi'i atodi i'r daflen newyddion.

- I resymoli'r amodau, mae amodau 4 a 6 wedi'u cyfuno, fel y mae amodau 10 a 15. Er mwyn hwyluso'r broses o ddymchwel yr adeilad presennol ar y safle, diwygiwyd y sbardunau ar gyfer yr amodau cyn cychwyn. Atodwyd rhestr lawn o'r amodau diwygiedig i'r daflen ddiweddaru.

Anerchwyd y Pwyllgor gan Geraint John (Geraint John Planning) (asiant) a siaradodd o blaid y cynigion.

Anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorydd C R Evans (Aelod Lleol) a amlinellodd ei wrthwynebiad personol i'r datblygiad arfaethedig.

2) **Cymeradwyo'r** cais cynllunio isod yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.

**(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2020/0257/FUL – gosod parc solar 9MW, sy'n cynnwys hyd at 25,000 o baneli ffotofoltäig, 9 chaban mewnol/trawsnewid, adeilad rheoli sengl a gwaith cysylltiedig ar Fferm Felin Wen, Rhydypandy Road, Treforys, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol manwl.

## 72 Cais Cynllunio 2019/1342/FU L2 - The Bryn, Sgeti, Abertawe.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu gwybodaeth am benderfyniad apêl yr Arolygiaeth Gynllunio i roi caniatâd mewn perthynas â  Chais Cynllunio Cyf: 2019/1342/FUL - 2 The Bryn, Sgeti, Abertawe - dymchwel yr annedd presennol ac adeiladu 1 byngalo ar wahân a 2 annedd ar wahân.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.53 am

**Cadeirydd**